Y Cyd-destun Lleol

Datblygiad Rhaglen Beilot Consortiwn De Orllewin a Chanolbarth Cymru

Gwahoddodd Llywodraeth y Cynulliad Gonsortiwm De Orllewin a Chanolbarth Cymru i ddatblygu ymagwedd amgen ar gyfer cynllun peilot y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion i ysgolion. Roedd hyn mewn cydnabyddiaeth bod rhaid i ysgolion unigol a'u hawdurdodau lleol berchen ar y Fframwaith yn lleol er mwyn iddo fod yn effeithiol, a bydd rhaid iddo adeiladau ar waith sy'n bodoli eisoes mewn ysgolion ac awdurdodau lleol ac ar fentrau presennol Llywodraeth y Cynulliad. Croesawodd Consortiwm De Orllewin a Chanolbarth Cymru y cyfle i ddatblygu ymagwedd a fyddai'n adeiladu ar weithredu consortiwm sefydledig ac a fyddai'n effeithiol yn y cyd-destun lleol.

Mae'r rhaglen i'w pheilota yng Nghonsortiwm De Orllewin a Chanolbarth Cymru wedi'i datblygu drwy weithredu consortiwm. Sefydlwyd grŵp datblygu, sy'n cynnwys 3 phennaeth a enwebwyd gan Grŵp Penaethiaid y Consortiwm ac uwch swyddogion o bob awdurdod, cyfarwyddwr cynorthwyol a chydlynydd y consortiwm.

Mae'r grŵp wedi datblygu ymagwedd a fydd yn adeiladu ar y gwaith sy'n cael ei wneud yn barod mewn ysgolion ac awdurdodau ac ar fentrau cyfredol Llywodraeth y Cynulliad, a'r hyn a fydd yn briodol i gyd-destun ac amgylchiadau pob ysgol ar draws y Consortiwm.
Mae'r model wedi'i wreiddio yn yr egwyddorion a amlinellir yn y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion ac wedi'i gyfeirio at y 'Diben Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion' (y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion, Tudalen 8) a nodir yn y ddogfen.

Egwyddorion Allweddol

Mae'r egwyddorion allweddol y mae'r ymagwedd yn deillio ohonynt fel a ganlyn:

- **Gwella Dysgu a Lles Plant a Phobl Ifanc**
    - Mae'r diben moesol yn ategu'r bwriad ar gyfer ein system addysg ac mae'n gofyn i ni greu'r amgylchiadau sy'n rhoi'r cyfleoedd gorau posibl i'r holl blant a phobl ifanc i ddysgu, mwyafu eu potensial, a bod ar eu hennill. Rhaid i'n diben moesol fod fel a ganlyn: …'how we improve learning outcomes for all students in all settings rather than some students in some settings' (Alma Harris, 2007)
    - Lleihau amrywiadau mewn effeithiolrwydd o fewn a rhwng ysgolion ar draws y system gyfan. I godi lefelau cyrhaeddiad yn gyffredinol, mae angen mynd i'r afael â'r gwahaniaethau mewn canlyniadau mewn ysgolion, (lle mae ymchwil yn dangos mai dyna'r amrywiaeth fwyaf), rhwng ysgolion, rhwng awdurdodau lleol a rhwng y cyfnodau cynradd ac uwchradd.

- **Gweithio ar dair lefel**
    - Ymrwymiad yr holl lefelau, ysgolion, awdurdodau lleol a'r llywodraeth genedlaethol i'r diben cenedlaethol ar gyfer addysg.

Draft

- Alinio polisïau ac arferion drwy ddeialog gwiriioneddol a meddwl ar ffurf systemau ar bob lefel, gan gynnwys goresgyn rhwystrau a wynebir gan randdeiliaid drwy werthfawrogi a pharchu safbwyntiau ei gilydd
- Tynnu ar wybodaeth a phrofiad ymarferwyr addysgu, proffesiynolion ac arweinwyr, a defnyddio gallu ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth y Cynulliad i gefnogi dysgu plant a phobl ifanc

- **Y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion**
  - Y myfyriwr yw'r uned drefnu bwysicach – nid yr ystafell ddosbarth, nid yr ysgol, ac nid y system ysgolion.
  - Ni all ysgolion gyflawni disgwyliadau ar gyfer trawsnewid drwy weithredu ar eu liwt eu hunain. Mae llwyddiant ysgol yn dibynnu ar ei gallu i ymuno â rhwydweithiau i rannu gwybodaeth, mynd i'r afael â phroblemau a chyfuno adnoddau
  - Caiff arweinyddiaeth ei dosbarthu ar draws ysgolion mewn rhwydweithiau, yn ogystal ag ysgolion.
    (Caldwell, 2006)

- **Cyd-destun lleol**
  - Ysgol, Cymuned, Awdurdod lleol
    Mae'r cyd-destun y mae ysgolion yn bodoli ynddo yn amrywio, ac ar draws y consortiwm, mae gennym yr ystod llawn o gyd-destunau sy'n bodoli ledled Cymru. Mae'r Consortiwm yn cynnwys tua thraean o'r ysgolion yng Nghymru. Mae'n Gonsortiwm cytbwys o ran cymysgu elfennau trefol a gwledig; ysgolion bach ac ysgolion mwy; amddifadiad cymdeithasol a goludlonedd a iaith – y Gymraeg a'r Saesneg. Cydbwysedd cyfansoddiad y Consortiwm yw ei gryfder.
  - I gyflawni gwelliant a newid cadarnhaol, mae'n rhaid i ni gydnabod y cyd-destun – y gymuned a'r awdurdod lleol y mae'r ysgol yn bodoli ynddynt a dod o hyd i ddatrysiadau a fydd yn ymarferol bosibl yn y cyd-destun y mae pob ysgol yn bodoli ynddo.

  - Ysgolion ac awdurdodau lleol sy'n rhagori
    Ar draws y Consortiwm, rydym yn cydnabod bod gennym ysgolion sy'n rhagori; yn 2007 yng Nghyfnod Allweddol 4, roedd y chwe awdurdod yn 6 o'r awdurdodau a fu'n perfformio orau ar raddau A-C ar gyfer TGAU a 6 allan o'r 9 uchaf ar gyfer Dangosydd Pynciau Craidd. Yr her yn y cyd-destun lleol yw gwneud pob ysgol yn ysgol wych. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni gydnabod hefyd bod rhai ysgolion mewn amgylchiadau lle mae rhaid iddynt gael ymyrraeth i'w gwneud yn ysgolion da. Mae arolygiadau diweddar o'r awdurdodau lleol gan Estyn wedi darparu tystiolaeth bod yr awdurdodau lleol yn perfformio'n dda. Mae Deddf Plant 2004 a'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yn darparu cyd-destun a meini prawf diwygiedig ar gyfer gwerthuso effeithiolrwydd ysgolion ac awdurdodau lleol ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.

Draft

- **Deialog Gwirioneddol**
    - Bydd dealltwriaeth gyffredin a defnyddio deialog gwirioneddol sy'n galluogi herio proffesiynol ac adeiladol rhwng yr holl randdeiliaid yn cefnogi cyflawni canlyniadau cadarnhaol o'r rhaglen beilot.
    - Mae Robin Alexander yn rhoi diffiniad ystyrlon o ddeialog:
      "dialogue requires the willingness to engage with minds, ideas and ways of thinking other than our own, it involves the ability to:-
    - question, listen, reflect, reason, explain, speculate and explore ideas
    - analyse problems, frame hypotheses and develop solutions
    - discuss, argue, examine evidence, defend, probe and assess argument
    - see through the rhetorical games that people play in order to disguise their real intentions or deny access to the truth"

      ('Education as Dialogue', Robin Alexander (2006))

- **Dwyieithrwydd**
    - Ar draws y consortiwm, mae 48% o'r ysgolion yn ysgolion dwyieithog neu gyfrwng Gymraeg ac mae 52% yn ysgolion gyfrwng saesneg, felly mae cyd-destun y consortiwm yn ddwyieithog
    - Rydym hefyd yn cydnabod y cyfraniad allweddol y mae ysgolion ac addysg yn ei wneud wrth gyflawni Ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i Gymru wirioneddol ddwyieithog.

- **Gweithio ar y cyd**
    - Mae nifer o enghreifftiau o ddatblygu gweithio ar y cyd rhwng ysgolion a rhwng awdurdodau lleol.
    - Elfen allweddol yn y model yw datblygu gweithredu consortiwm rhwng y chwe awdurdod. Mae gweithredu consortiwm wedi bod yn datblygu ers i'r consortiwm gael ei sefydlu yn 2000. Mae gweithredu consortiwm yn datblygu er 2005 ac mae wedi mireinio'r broses o lywodraethu a modd gweithredu consortiwm. Rydym wedi datblygu continwwm o weithredu consortiwm sy'n darparu ymagwedd hyblyg tuag at weithredu ar y cyd.

    - Datblygwyd yr ymagwedd consortiwm tuag at y rhaglen beilot drwy wiethredu consortiwm; mae hyn wedi cynnwys dethol yr ysgolion, recriwtio, dethol a hyfforddi'r Hwyluswyr Gwella. Bydd y prosesau llywodraethu a gweithredu sydd wedi'u sefydlu yn ategu'r gwatih datblygu pellach drwy gydol y cynllun peilot.

- **Partneriaeth**
    - Mae partneriaeth rhwng rhanddeiliaid yn elfen hanfodol. Mae partneriaeth wirioneddol yn gofyn am ddatblygu parch ac ymddiriedaeth broffesiynol. Partneriaethau allweddol i'r ymagwedd consortiwm yw'r rheiny a ddatblygir rhwng ysgolion i ategu'r tasg o ddatblygu datrysiadau cyffredin i faterion gwella; yr awdurdod lleol a'u hysgolion; y cynghorydd cyswllt a'r hwyluswydd gwella a'r

Draft

awdurdodau lleol drwy weithredu consrtiwm gyda Llywodraeth y Cynulliad.

- Y canlyniadau o ran perfformiad cyffredinol disgyblion yw canlyniad y bartneriaeth agos rhwng yr ysgolion a'u hawdurdod lleol, gan ddefnyddio gwybodaeth leol effeithiol a chyd-destun fel allwedd yn y bartneriaeth.

Yr Ymagwedd

Bydd y rhaglen yn ymagwedd werthusol sy'n ceisio cefnogi'r daith unigol y mae pob ysgol yn ei gwneud tuag at ddod yn fwy effeithiol wrth ychwanegu gwerth at ddysgu'r holl ddisgyblion yn yr ysgol.

Dylai fod yn ymagwedd sy'n ymwneud â helpu ysgolion da i wella drwy adeiladu ar a gwneud y defnydd mwyaf defnyddiol o'r adnoddau sydd ar gael i'r ysgol – ar lefel ysgol, yn lleol ac yn genedlaethol.

Bydd yn adeiladu ar arfer da sy'n bodoli eisoes o fewn awdurdodau ac ysgolion unigol drwy gefnogaeth a herio effeithiol, gan gynnwys datblygiadau cyfochrog megis ysgolion cymunedol, Cytundebau Partneriaeth AALlau/Ysgolion a chyflwyno gwasanaethau i blant, pobl ifanc a theuluoedd mewn modd integredig.

Dylai'r ymagwedd alluogi ysgolion i gyflawni effeithiolrwydd gwell sy'n effeithio'n gadarnhaol ar safonau; dylai ganolbwyntio ar y nodweddion a'r gwerthoedd dyfnach, gan gynnwys codi dyheadau'r gymuned ysgolion gyfan.

Draft